***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 No. 734

## Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011

## RHAN VI

Amrywiol

**Cydymffurfio â rheoliadau**

**51.** Os oes rhagor nag un person cofrestredig mewn perthynas â sefydliad neu asiantaeth, ac os gwneir unrhyw beth y mae'n ofynnol i'r person cofrestredig ei wneud o dan y rheoliadau hyn gan un o'r personau cofrestredig, ni fydd yn ofynnol i'r peth hwnnw gael ei wneud gan unrhyw un o'r personau cofrestredig eraill.

**Tramgwyddau**

**52.**—(1) Bydd torri, neu fethu â chydymffurfio ag unrhyw un o ddarpariaethau rheoliadau 6 i 17, 18(1), 19 i 35, 37 i 45 a 47 i 50 yn dramgwydd.

(2) Caiff yr awdurdod cofrestru ddwyn achos yn erbyn person a fu unwaith, ond nad yw bellach, yn berson cofrestredig, mewn perthynas â methiant i gydymffurfio â rheoliad 23 wedi i'r person hwnnw beidio â bod yn berson cofrestredig.

**Darpariaethau trosiannol**

**53.**—(1) Hyd nes bo digwyddiad cyfamserol yn digwydd, ni fydd rheoliad 27 yn gymwys i berson cofrestredig mewn cysylltiad ag ysbyty annibynnol nac i geisydd am gofrestriad fel rheolwr, os caniatawyd cofrestriad y darparwr cofrestredig cyn 5 Ebrill 2011.

(2) At ddibenion y rheoliad hwn, ystyr "digwyddiad cyfamserol" ("*intervening event*") yw—

(a) cais a ddaw i law'r awdurdod cofrestru o dan adran 12 o'r Ddeddf oddi wrth ddarparwr newydd yr ysbyty annibynnol; neu

(b) cais a ddaw i law'r awdurdod cofrestru o dan adran 15(1)(a) o'r Ddeddf oddi wrth berson cofrestredig, pan fyddai effaith caniatáu'r cais fel a bennir ym mharagraff (3).

(3) Bydd cynnydd yn nifer y lleoedd cymeradwy y gall person cofrestredig eu darparu i gleifion sydd ag anabledd dysgu a ddiagnoswyd.

(4) Yn achos digwyddiad cyfamserol o dan baragraff (2)(b), ni fydd rheoliad 52 yn gymwys i reoliad 27 hyd nes mae'r cais yn cael ei benderfynu'n derfynol neu y'i tynnir yn ôl.

(5) At ddibenion paragraff (4) ystyr "cael ei benderfynu'n derfynol" ("*finally disposed of*") yw caniatáu'r cais o dan adran 15(4) neu, os gwrthodir y cais, y dyddiad ymhen 28 diwrnod ar ôl gwrthod y cais, ac os gwneir apêl, y dyddiad y penderfynir yr apêl yn derfynol neu y rhoddir y gorau iddi.

(6) Mae paragraff (7) yn gymwys i bersonau a gofrestrwyd mewn perthynas â sefydliad cyn 5 Ebrill 2011, pan fo—

(a) rheoliad 3 yn gymwys mewn modd sy'n peri nad yw'r ysbyty annibynnol bellach yn ysbyty annibynnol; a

(b) rheoliad 4 yn gymwys mewn perthynas â'r sefydliad hwnnw.

(7) Caiff personau y mae paragraff (6) yn gymwys iddynt—

(a) parhau i redeg neu reoli'r sefydliad heb fod wedi eu cofrestru o dan y Ddeddf—

(i) yn ystod cyfnod o 3 mis sy'n dechrau ar 5 Ebrill 2011; a

(ii) os gwneir cais am gofrestriad o fewn y cyfnod hwnnw, hyd nes mae'r cais yn cael ei benderfynu'n derfynol neu y'i tynnir yn ôl;

(b) eu heithrio rhag talu ffi cofrestru o dan reoliad 3 o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Ffioedd) (Cymru) 2011(**1**).

(8) At ddibenion paragraff (7)(a)(ii) ystyr "cael ei benderfynu'n derfynol" ("*finally disposed of*") yw'r dyddiad ymhen 28 diwrnod ar ôl caniatáu neu wrthod y cofrestriad ac os gwneir apêl, y dyddiad y penderfynir yr apêl yn derfynol neu y rhoddir y gorau iddi.

### Dirymu ac arbedion

**54.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2) dirymir drwy hyn Reoliadau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol (Cymru) 2002(**2**) ("Rheoliadau 2002").

(2) Mae rheoliad 3(4) o Reoliadau 2002 yn parhau i fod ag effaith.

(**1**) O.S. 2011/106 (Cy.25).
(**2**) O.S. 2002/325 (Cy.38).